WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2014-15

# Cyngor Sir Penfro

Cyhoeddwyd: Medi 2015
Cyfeirnod y ddogfen: 423A2015



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Colin Davies a Jeremy Evans o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


Adroddiad cryno 4

Diben yr adroddiad hwn 4

Gwaith archwilio perfformiad 2014-15 5

Mae'r Cyngor wedi sicrhau gwelliant yn y meysydd y mae wedi rhoi blaenoriaeth iddynt yn ystod 2014-2015 ond mae sylw'r Cyngor wedi cael ei dynnu oddi wrth heriau llywodraethu a allai gyfyngu ar ei allu i sicrhau gwelliant yn y flwyddyn sydd i ddod os nad ymdrinnir â hwy 6

Penawdau - crynodeb o'r prif ganfyddiadau 6

Argymhellion 9

Adroddiad manwl 11

Y defnydd o adnoddau 12

Llywodraethu 14

Perfformiad 18

Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 29

Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-15 Cyngor Sir Penfro 30

Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad Cyngor Sir Penfro o berfformiad 2013-14 32

Atodiad 4 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2014-15 34

Atodiad 5 – Gwybodaeth ddefnyddiol am adnoddau Cyngor Sir Penfro 39

# Adroddiad cryno

## Diben yr adroddiad hwn

1 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru, ac asesu a fydd pob awdurdod yn cyflawni dyletswyddau statudol yn ymwneud â gwelliant parhaus[1]. Cyflawnwyd y gwaith hwn ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o fewn llywodraeth leol.

2 Yn ogystal, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal asesiad corfforaethol trylwyr ym mhob awdurdod ar sail gylchol (unwaith bob pedair blynedd o leiaf ar hyn o bryd). Yn y cyfamser, yn ogystal ag archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant, bydd Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn olrhain datblygiadau ac yn cyflawni gwaith asesu pellach sy'n canolbwyntio ar nifer o themâu allweddol, a ddatblygir mewn trafodaeth â phob awdurdod.

3 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yng Nghyngor Sir Penfro (y Cyngor) ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf o'r fath ym mis Gorffennaf 2014. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau allweddol o adroddiadau a gyhoeddwyd gan 'reoleiddwyr perthnasol', sef: Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn); a Chomisiynydd y Gymraeg. Serch hynny, nid yw'r adroddiad hwn yn adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau a geir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd o fewn y Cyngor gan gyrff adolygu allanol perthnasol ac, oni nodir fel arall, yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gafodd gwaith o'r fath ei gwblhau.

4 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2014-15, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi, yn yr adroddiad hwn, a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2015-16.

5 Ni ddylid ystyried bod y datganiad hwn yn rhoi barn bendant am sefyllfa sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

6 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn post@archwilio.cymru neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

1 Nodir dyletswyddau a gofynion ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

## Gwaith archwilio perfformiad 2014-15

7 Wrth bennu'r amrywiaeth o waith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ystyried graddau'r wybodaeth archwilio ac arolygu a gasglwyd yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys systemau adolygu a gwerthuso'r Cyngor ei hun. Yn ystod 2014-15, gwnaethom gyflawni gwaith asesu gwelliant o dan dair thema: y defnydd o adnoddau; llywodraethu; a pherfformiad.

8 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan gynnwys gwaith y 'rheoleiddwyr perthnasol', isod:

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad byr |
|---|---|
| **Asesiad Cynllunio Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru** | Adolygiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a sut mae'n cyllidebu ac yn cyflawni arbedion gofynnol. |
| **Estyn - Gwasanaeth Awdurdodau Addysg Lleol** | Ymweliad monitro. |
| **Archwiliad 'Cynllun Gwella' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru** | Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella. |
| **Adroddiad Blynyddol AGGCC** | Adolygiad Blynyddol o swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor. |
| **Estyn – Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned** | Adolygiad o Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Benfro. |
| **Archwiliad o 'Asesiad o Berfformiad' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru** | Adolygiad o asesiad o berfformiad cyhoeddedig y Cyngor, gan gynnwys profi a dilysu gwybodaeth am berfformiad. |
| **Estyn – Ymweliad Cyfeirio Disgyblion** | Ymweliad monitro. |
| **Cyflawni â llai - yr Effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a dinasyddion** | Mae'r astudiaeth hon, sef y gyntaf mewn cyfres o astudiaethau sy'n ystyried sut mae cynghorau'n ymdopi wrth geisio cyflawni â llai, yn ystyried effaith toriadau mewn adnoddau ar allu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol. |
| **Diogelu Plant** | Mae adolygiad o drefniadau sicrwydd ac atebolrwydd y Cyngor ar gyfer sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith ac yn cael eu dilyn. |
| **Adolygiad o weithio mewn Partneriaeth** | Adolygu sut mae'r Cyngor yn asesu buddiannau partneriaeth i'w ddinasyddion ac iddo'i hun. |
| **Asesiad o Berfformiad** | Adolygu p'un a yw dull y Cyngor o gyflwyno adroddiadau i'r cyhoedd ar ei berfformiad yn deg ac yn gytbwys. |
| **Comisiynydd Y Gymraeg** | Adolygiad o ddull gweithredu'r Cyngor mewn perthynas â'r Gymraeg. |

## Mae'r Cyngor wedi sicrhau gwelliant yn y meysydd y mae wedi rhoi blaenoriaeth iddynt yn ystod 2014-2015 ond mae sylw'r Cyngor wedi cael ei dynnu oddi wrth heriau llywodraethu a allai gyfyngu ar ei allu i sicrhau gwelliant yn y flwyddyn sydd i ddod os nad ymdrinnir â hwy

9 Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn wynebu heriau llywodraethu a allai gyfyngu ar allu'r Cyngor i sicrhau gwelliant yn y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- a Er gwaethaf y pwysau ariannol cynyddol, bu gwelliannau ym meysydd blaenoriaeth y Cyngor, gan gynnwys rheoli gwastraff, iechyd yr amgylchedd, diogelu, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg.
- b Er bod gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol cadarn ar y cyfan, ym mis Medi 2014 cawsom wrthwynebiad ffurfiol i'r driniaeth gyfrifyddu ar gyfer Pont y Cleddau ac o ganlyniad bu oedi cyn y gallem roi barn archwilio ar gyfrifon 2013-14.
- c Ar ôl adroddiad er budd y cyhoedd a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Penodedig ym mis Ionawr 2014, cyd-drafododd y Cyngor becyn diswyddo gwirfoddol i'w Brif Weithredwr; amlygodd y broses broblemau o hyd ynglŷn â llywodraethu a methiant i fod yn agored ac yn dryloyw.

## Penawdau - crynodeb o'r prif ganfyddiadau

10 Mae'r tabl isod yn crynhoi canfyddiadau allweddol ein gwaith dilynol a'n gwaith monitro yn ogystal ag adroddiadau a gyhoeddwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf gan Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn a Chomisiynydd y Gymraeg.

| | |
|---|---|
| **Archwilio cyfrifon** | Ym mis Medi 2014, cawsom wrthwynebiad ffurfiol i'r driniaeth gyfrifyddu ar gyfer Pont y Cleddau. Oherwydd y gofynion cyfreithiol a chyfrifyddu arnom ni a'r Cyngor bu oedi cyn y gallem roi barn archwilio ar gyfrifon 2013-14 (gweler Atodiad 4). |
| **Archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant** | Gwnaethom gyhoeddi tystysgrifau yn nodi bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur (gweler Atodiadau 2 a 3). |

| | |
|---|---|
| **Y defnydd o adnoddau** | Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol cadarn ar y cyfan, ond braidd yn draddodiadol, sydd wedi ateb y diben ac mae'n datblygu trosolwg strategol tymor hwy er nad yw'r aelodau yn cael eu cynnwys digon yn y gwaith o gynllunio a monitro'r cynlluniau lleihau costau/cynhyrchu incwm.<br>**Swyddfa Archwilio Cymru, Rhagfyr 2014**<br><br>Ar y cyfan, mae'r Cyngor yn rhagori ar lefelau gofynnol wrth ddarparu ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd ac mae rhanddeiliaid yn gadarnhaol ar y cyfan am y ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli ei wasanaethau, er gwaethaf toriadau sylweddol mewn adnoddau. Bydd y Cyngor yn ei chael hi'n anodd cyflawni dyletswyddau statudol newydd sy'n diogelu'r cyhoedd a'r amgylchedd.<br>**Swyddfa Archwilio Cymru, Rhagfyr 2014** |
| **Llywodraethu** | Ar ôl adroddiad er budd y cyhoedd a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Penodedig ym mis Ionawr 2014, cyd-drafododd y Cyngor becyn diswyddo gwirfoddol i'w Brif Weithredwr; amlygodd y broses broblemau o hyd ynglŷn â llywodraethu a methiant i fod yn agored ac yn dryloyw.<br><br>Mae trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a rheoli'r Cyngor ar gyfer monitro cyfrifoldebau o ran diogelu plant yn addas at y diben ac yn cael eu rheoli'n effeithiol ar y cyfan, er bod cyfleoedd i wella polisi, proses a hyfforddiant mewn perthynas â Chwythu'r Chwiban ymhellach.<br>**Swyddfa Archwilio Cymru, Rhagfyr 2014**<br><br>Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu priodol ar waith i gyflawni ei raglen ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif; er gwaethaf llithriant, mae adolygiadau allanol yn awgrymu lefel dda o hyder yng ngallu'r Cyngor i sicrhau canlyniadau llwyddiannus.<br><br>Mae'r Cyngor yn adolygu ac yn gwella'r ffordd y mae'n rheoli risg i'r busnes, ond nid yw'r Pwyllgor Archwilio yn cyflawni ei gyfrifoldebau rheoli risg yn llawn eto. |
| **Perfformiad** | Mae Estyn o'r farn nad oes angen i'r awdurdod lleol fod yn destun mesurau arbennig mwyach.<br>**Estyn, Adroddiad Monitro Cyngor Sir Penfro 2014, Mehefin 2014**<br><br>Ym marn Estyn, roedd perfformiad presennol Partneriaeth Dysgu Cymunedol i Oedolion Sir Benfro yn dda, ac roedd ei ragolygon ar gyfer gwella yn ddigonol.<br>**Estyn, Adroddiad Arolygiad o Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Benfro, Tachwedd 2014** |

| Perfformiad | |
|---|---|
| | Penderfynodd Estyn fod Uned Cyfeirio Disgyblion Sir Benfro wedi gwneud cynnydd digonol o ran yr argymhellion yn sgil yr arolygiad craidd ym mis Mawrth 2012, er mwyn ei alluogi i dynnu ei henw oddi ar y rhestr o unedau cyfeirio disgyblion sydd angen gwella'n sylweddol.<br>**Estyn, Ymweliad Monitro Uned Cyfeirio Disgyblion Sir Benfro 2014, Rhagfyr 2014**<br><br>Er bod y Cyngor wedi cefnogi cynlluniau i wella hyfywedd a bywiogrwydd ei chwe phrif dref, mae diffyg mesurau defnyddiol yn ei gwneud hi'n anodd i'r Cyngor werthuso ei lwyddiannau'n gywir.<br>**Swyddfa Archwilio Cymru - Asesiad o Berfformiad, Ionawr 2015**<br><br>Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei uchelgeisiau ar gyfer yr amgylchedd drwy barhau i ragori ar dargedau cenedlaethol ar gyfer cyfran y gwastraff a ailgylchwyd a faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi.<br>**Swyddfa Archwilio Cymru - Asesiad o Berfformiad, Ionawr 2015**<br><br>Bu gwelliant parhaus yng ngwasanaethau cymdeithasol y Cyngor drwy gydol y flwyddyn gan ei helpu i wneud cynnydd tuag at gyflawni ei uchelgais o ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol i bobl ar sail eu hanghenion a'u dymuniadau.<br>**AGGCC, Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013-2014, Hydref 2014**<br><br>Mae perfformiad y Cyngor o ran gweinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn wael.<br><br>Mae'r Cyngor wedi sefydlu gweithgor i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y fframwaith 'Mwy na Geiriau' ac mae'n cynnal cynllun peilot llwyddiannus o becyn hyfforddiant iaith Gymraeg.<br>**Comisiynydd y Gymraeg, Chwefror 2015** |

## Argymhellion

11 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- a wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

12 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, ceir materion â llai o flaenoriaeth, a elwir yn gynigion ar gyfer gwella, yn ein hadroddiadau eraill ond gellir cyfeirio atynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn parhau i fonitro cynigion ar gyfer gwella yn ystod ein gwaith asesu gwelliant.

13 Nid ydym yn gwneud unrhyw argymhellion newydd yn yr adroddiad hwn gan y byddwn yn cynnal asesiad corfforaethol llawn yn y Cyngor yn ystod mis Ebrill 2015. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ganfyddiadau'r gwaith hwn mewn adroddiad asesu corfforaethol ac os bydd ein gwaith yn nodi bod angen gwneud hynny, bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys argymhellion a chynigion ar gyfer gwella.

14 Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn gwneud argymhellion a all fod yn berthnasol i Gynghorau yn ei adroddiadau cenedlaethol ar lywodraeth leol. Ceir rhestr o argymhellion perthnasol mewn adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2014-15 yn Atodiad 5.

15 Nodir argymhellion a wnaed gan AGGCC, Estyn a Chomisiynydd y Gymraeg yn ystod y flwyddyn isod.

| Argymhellion | |
|---|---|
| **AGGCC – dim** | |
| **Estyn – Arolygiad o Rwydwaith Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Benfro** | |
| A1 | Gwella'r ffordd y caiff darpariaeth medrau sylfaenol ei chynllunio a'i chyflwyno i wneud yn siŵr bod lefel y ddarpariaeth yn adlewyrchu graddfa'r medrau sylfaenol sydd eu hangen yn y sir a bod dysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau'n llwyddiannus yn unol â'r cymharydd cenedlaethol o leiaf. |
| A2 | Gwella cynllunio strategol i wneud yn siŵr bod y rhwydwaith yn gallu mesur cynnydd yn erbyn ei flaenoriaethau strategol. |
| A3 | Gwella'r defnydd o wybodaeth feincnodi i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella ar lefel maes pwnc sector, lleihau faint o ddarpariaeth sy'n cael ei chofnodi fel 'arall' neu 'lefel yn anhysbys', a rhoi targedau gwella ar waith. |
| A4 | Gwella cynllunio datblygu ansawdd i nodi camau gweithredu penodol ar gyfer gwella a gosod graddfeydd amser clir ar gyfer monitro cynnydd. |
| A5 | Gwella'r ffordd y mae'r grŵp strategol yn gweithio i reoli a monitro'r cynnydd a wneir yn erbyn blaenoriaethau strategol y rhwydwaith a meysydd allweddol i'w gwella y rhwydwaith |
| **Comisiynydd y Gymraeg – dim** | |

# Adroddiad manwl



# Y defnydd o adnoddau

## Archwiliad o gyfrifon y Cyngor

16 Ym mis Medi 2014, cawsom wrthwynebiad ffurfiol i'r driniaeth gyfrifyddu ar gyfer Pont y Cleddau. Oherwydd y gofynion cyfreithiol a chyfrifyddu arnom ni a'r Cyngor bu oedi cyn y gallem roi barn archwilio ar gyfrifon 2013-14.

17 Rydym wedi cytuno ar ddatrysiad i'r materion a godwyd yn ddiweddar a chafodd adroddiad ei gyflwyno a'i drafod yn y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 6 Gorffennaf 2015. Cymeradwywyd yr adroddiad a'r diweddariadau yn y cyfarfod a chafodd barn ddiamod, gyda pharagraff pwyslais mater, ei rhoi ar y cyfrifon. Bydd y llythyr Archwilio Blynyddol yn dilyn yn yr hydref.

## Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol cadarn ar y cyfan ond braidd yn draddodiadol sydd wedi ateb y diben, ac mae'n datblygu trosolwg strategol tymor hwy er nad yw'r aelodau yn cael eu cynnwys digon yn y gwaith o gynllunio a monitro'r cynlluniau lleihau costau/cynhyrchu incwm

18 Mae gan y Cyngor record dda o gyflawni mesurau i leihau costau a nodwyd yn ystod y flwyddyn yn erbyn y camau gweithredu cynlluniedig a gymeradwywyd ganddo, er na chyflwynodd adroddiadau yn erbyn cynigion arbedion penodol a'i gwnaeth yn anodd nodi'r meysydd a gyflawnodd dargedau lleihau costau a'r meysydd na wnaethant hynny.

19 Mae fframwaith corfforaethol y Cyngor ar gyfer cynllunio ariannol wedi ateb y diben, er y gallai cysylltiadau rhwng cynlluniau ariannol a chynlluniau gwella fod yn fwy eglur; mae'r Cyngor bellach yn ymestyn ei ddull gweithredu gan ddarparu trosolwg mwy strategol sy'n fwy addas ar gyfer yr heriau ariannol cynyddol a wynebir ganddo.

20 Mae trefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn cael eu rheoli'n effeithiol, er bod nifer o faterion wedi codi eleni sydd wedi achosi oedi cyn y gallem gymeradwyo'r cyfrifon. Bwriadwn wneud rhagor o waith yn y maes hwn yn 2015.

21 Mae trefniadau llywodraethu ariannol y Cyngor ar gyfer adolygu a herio perfformiad yn ddigonol ond nid yw'r cysylltiadau rhwng perfformiad ariannol a pherfformiad gwasanaethau yn eglur. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd asesu'r gwerth am arian a ddarperir gan wasanaethau'r Cyngor.

22 Nid yw'r Aelodau yn cael eu cynnwys digon yn y gwaith o fonitro cynnydd tuag at gyflawni gostyngiadau mewn costau a gynlluniwyd. Nid ydynt ychwaith yn cael digon o wybodaeth am feysydd sy'n perfformio'n wael, gan gyfyngu ar eu gallu i herio gwasanaethau. Fodd bynnag, mae cynlluniau arbedion cyfredol y Cyngor ar gyfer 2014-15 yn addas at y diben ac maent yn cael eu rheoli'n effeithiol ar y cyfan.

23 Mae cynlluniau arbedion effeithlonrwydd ar waith gan y Cyngor ar gyfer 2015-16 a 2016-17 ond mae toriadau ariannol newydd wedi gosod pwysau ychwanegol i nodi arbedion pellach a bydd angen gwneud rhai penderfyniadau anodd.

## Ar y cyfan, mae’r Cyngor yn rhagori ar lefelau gofynnol wrth ddarparu ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd ac mae rhanddeiliaid yn gadarnhaol ar y cyfan am y ffordd y mae’r Cyngor yn rheoli ei wasanaethau, er gwaethaf toriadau sylweddol mewn adnoddau; fodd bynnag, bydd y Cyngor yn ei chael hi’n anodd cyflawni dyletswyddau statudol newydd sy’n diogelu’r cyhoedd a’r amgylchedd

24 Mae gan gynghorau lawer o ddyletswyddau statudol ym maes iechyd yr amgylchedd ond nid yw gwariant yn cael ei ddiogelu yn ystod y cyfnod presennol o galedi ariannol, sy’n golygu ei bod yn anos i’r gwasanaeth gyflawni blaenoriaethau strategol cenedlaethol.

25 Mae’r Cyngor yn rhagori ar lefelau gofynnol wrth ddarparu’r rhan fwyaf o’i wasanaethau iechyd yr amgylchedd, fel y’u bernir yn erbyn y safonau arfer gorau er gwaethaf y ffaith iddo wneud toriadau sylweddol yng nghyllidebau a niferoedd staff iechyd yr amgylchedd ers 2011-12. Mae dyletswyddau statudol newydd yn cael eu cyflwyno ym maes iechyd yr amgylchedd a bydd y Cyngor yn ei chael hi’n anodd eu cyflawni.

26 Noda arolwg o’r staff fod ymatebwyr yn gadarnhaol ar y cyfan am safon gyfredol gwasanaeth iechyd yr amgylchedd ond mae’r ymwybyddiaeth o berfformiad neu gynlluniau ar gyfer y dyfodol ymhlith dinasyddion yn isel ar hyn o bryd.

# Llywodraethu

## Ar ôl adroddiad er budd y cyhoedd a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Penodedig ym mis Ionawr 2014, cyd-drafododd y Cyngor becyn diswyddo gwirfoddol i'w Brif Weithredwr; amlygodd y broses broblemau o hyd ynglŷn â llywodraethu a methiant i fod yn agored ac yn dryloyw

27 Cyd-drafodwyd pecyn diswyddo gwirfoddol i'r Prif Weithredwr gan yr Arweinydd ar yr un pryd ag y sefydlwyd Pwyllgor Ymchwilio Disgyblu i ymchwilio i holl faterion ymddygiad, ymddiriedaeth a hyder yn y Prif Weithredwr. Roedd y pecyn ar y dechrau yn cynnwys symiau a gyfrifwyd ar gyflog gan gynnwys eithrio o'r gronfa bensiwn. Nododd cyngor cyfreithiol allanol y Cyngor bod gan y Prif Weithredwr hawl gytundebol i'r taliadau hyn ac y gallai peidio â'u cynnwys yn y pecyn diswyddo olygu bod y Cyngor yn agored i gamau cyfreithiol pellach. Cymeradwywyd y pecyn gan y Cyngor llawn ar ôl dadl hirfaith yn breifat. Dim ond yn y cyfarfod y rhoddwyd gwybodaeth i'r aelodau; mewn rhai achosion, dim ond ar lafar y rhoddwyd y wybodaeth.

28 Cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig hysbysiad cynghori gan fod yr elfen o'r pecyn diswyddo a oedd yn ymwneud ag eithrio o'r gronfa bensiwn yn anghyfreithlon, yn ei farn ef. Yna hepgorodd y Cyngor yr elfen hon (£53,000) o'r pecyn diswyddo a gadawodd y Prif Weithredwr gyflogaeth y Cyngor ar ddiwedd mis Hydref 2014.

29 Ataliodd y Cyngor wybodaeth am gar cwmni'r Prif Weithredwr ar y sail bod y wybodaeth yn bersonol. Er ei fod yn cydnabod y farn hon, penderfynodd y Comisiynydd Gwybodaeth y dylid rhyddhau'r wybodaeth gan fod yr angen am ddatgeliad cyhoeddus tryloyw yn drech na hynny.

30 Ataliodd swyddogion wybodaeth rhag cael ei rhyddhau i'r aelodau mewn sawl maes arall hefyd. Er, fel y noda swyddogion, fod atal gwybodaeth yn rhoi rhyw sicrwydd i swyddogion na chaiff y wybodaeth ei rhyddhau'n amhriodol gan aelodau, mae dulliau ffurfiol ar gael o ddwyn aelodau i gyfrif am ymddygiad amhriodol o'r fath. Mae dull gweithredu'r Cyngor yn atal aelodau rhag ymgymryd â'u rôl herio ac yn cyfyngu ar eu gallu i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth briodol gan beryglu gallu'r Cyngor i sicrhau gwelliant.

## Mae trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a rheoli'r Cyngor ar gyfer monitro cyfrifoldebau o ran diogelu plant yn addas at y diben ac yn cael eu rheoli'n effeithiol ar y cyfan, er bod cyfleoedd i wella polisi, proses a hyfforddiant mewn perthynas â Chwythu'r Chwiban ymhellach

31 Mae'r trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a rheoli ar gyfer goruchwylio a yw'r Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau o ran diogelu plant yn addas at y diben ac yn cael eu rheoli'n effeithiol, ond gallai'r Pwyllgor Archwilio wneud rhagor i gyfeirio risgiau sy'n seiliedig at wasanaethau at bwyllgorau craffu.

32 Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer monitro a gwerthuso ei gyfrifoldebau o ran diogelu plant yn addas at y diben ac yn cael eu rheoli'n effeithiol ar y cyfan. Mae gan y Cyngor brosesau effeithiol hefyd i nodi gwersi i'w dysgu a'i alluogi i weithredu ar hyn er mwyn sbarduno gwelliannau yn ei drefniadau diogelu. Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn dewis meysydd archwilio gan ddefnyddio model sy'n seiliedig ar risg. Mae nifer o bynciau sy'n ymwneud â diogelu yn parhau i gael eu cynnwys yn ei raglen waith bob blwyddyn. Hysbysir y Pwyllgor Archwilio o allbynnau adolygiadau'r gwasanaeth Archwilio Mewnol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn cael eu hanfon i bwyllgorau trosolwg a chraffu i fod yn destun her fwy arbenigol. Yn gyffredinol, nid yw pwyllgorau craffu yn ymwybodol o raglen waith Archwiliad Mewnol ac felly ni allant ei hystyried wrth iddynt ddatblygu eu blaenraglenni gwaith.

33 Mae'r trefniadau ar gyfer chwythu'r chwiban yn gadarn ar y cyfan, ond mae angen mynd i'r afael â rhai gwendidau yn ymwneud â pholisi, proses a hyfforddiant. Mae Polisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor wedi'i strwythuro'n dda, yn gryno ac yn gefnogol. Fodd bynnag, mewn rhai mannau, byddai'n fuddiol pe bai'r polisi yn fwy eglur ac yn fanylach; er enghraifft, egluro'r weithdrefn ymchwilio a datgan yn glir y dylid codi pryderon yn hytrach nag anwybyddu drwgweithredu. Mae'n amlwg bod y Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau bod ei drefniadau ar gyfer chwythu'r chwiban yn gweithio'n dda. Mae'r polisi yn rhoi sicrwydd i unigolion ac mae canllawiau clir ac effeithiol ar gael i'r rhai sydd eu hangen. Fodd bynnag, nid yw'r aelodau wedi'u hysbysu o'r trefniadau hyn, nac unrhyw dueddiadau neu ganlyniadau, ac nid yw'r aelodau wedi'u herio na chraffu arnynt.

34 Ceir gwendidau yn y ddarpariaeth hyfforddiant ar gyfer chwythu'r chwiban ac er bod y Cyngor wedi darparu Polisi Chwythu'r Chwiban ar y fewnrwyd ac wedi rhoi cyhoeddusrwydd iddo drwy ddulliau eraill, nid oes unrhyw waith dilynol wedi'i wneud ar hyn er mwyn cadarnhau bod cyflogeion yn ymwybodol o'r polisi a darparu hyfforddiant lle y bo angen.

## Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu priodol ar waith i gyflawni ei raglen ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif; er gwaethaf llithriant, mae adolygiadau allanol yn awgrymu lefel dda o hyder yng ngallu'r Cyngor i sicrhau canlyniadau llwyddiannus

35 Mae gan y Cyngor, ynghyd â chynghorau eraill yng Nghymru, raglen fawr a chymhleth i wella adeiladau ei ysgolion. Y nod yw gwella'r seilwaith a chreu amgylchedd dysgu gwell sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif. Y gobaith yw y bydd hyn yn ei dro yn gwella presenoldeb a chyrhaeddiad myfyrwyr. Mae'r rhaglen hon yn rhedeg ochr yn ochr â rhaglen ad-drefnu ysgolion y Cyngor. Mae'r model llywodraethu ar gyfer y ddwy raglen hyn yn briodol wahanol. Y Cyngor llawn sy'n gwneud y penderfyniadau ynglŷn ag ad-drefnu ysgolion, tra bod strwythur rheoli rhaglen ffurfiol yn llywodraethu'r rhaglen ysgolion yr 21ain Ganrif.

36 Mae'r rhaglen yn cael ei llywodraethu'n effeithiol gydag ymwneud uwch swyddogion ac aelodau. Cânt eu cefnogi gan nifer o swyddogion gwybodus o bob rhan o'r Cyngor, y mae pob un ohonynt yn ymrwymedig i ganlyniad llwyddiannus.

37 Er gwaethaf trefniadau rheoli effeithiol, mae'r rhaglen waith wedi llithro tua 12 mis, a hynny oherwydd nifer o ffactorau nad ydynt i gyd o dan reolaeth y Cyngor. Er enghraifft, cysylltiadau ag ad-drefnu ysgolion a'r ddibyniaeth ar Lywodraeth Cymru i gymeradwyo achosion busnes. Nid yw'r llithriant wedi golygu bod angen rhoi'r gorau i elfennau o'r rhaglen eto, ond mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod angen hawlio arian yn erbyn amserlen y cytunwyd arni yn y dyfodol.

38 Mae'r Cyngor wedi cael dau adolygiad hyder wrth gyflawni Porth Swyddfa Masnach y Llywodraeth; cynhaliwyd yr un diwethaf ym mis Tachwedd 2014. Rhoddodd yr adolygiad hwn radd o ambr/gwyrdd i'r Cyngor, gan nodi mai'r tebygrwydd yw y bydd yn cyflawni'n llwyddiannus ond bydd angen sylw o hyd i sicrhau nad yw risgiau yn troi'n broblemau mawr sy'n peryglu'r broses gyflawni. Nododd tîm yr adolygiad hefyd 'a developing relationship between the Authority and Welsh Government is encouraging and demonstrating a growing maturity in approach and willingness to find solutions to emergent challenges. Even the most complex of the Phase 1 Projects appears to be in good shape and there is no reason to suspect that successful delivery should not be achieved. The success to date is a credit to a strong and motivated Pembrokeshire Team.'

39 Mae prosiectau Cam 2 ar gam cynharach ac mae penderfyniadau diweddar gan y Cyngor wedi symud y grŵp hwn o brosiectau yn ei flaen fel y gall eu hachosion busnes manwl gael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru.

## Mae'r Cyngor yn adolygu ac yn gwella'r ffordd y mae'n rheoli risg i'r busnes, ond nid yw'r Pwyllgor Archwilio yn cyflawni ei gyfrifoldebau rheoli risg yn llawn eto

40 Cymeradwywyd Strategaeth Risg Busnes y Cyngor gan y Pwyllgor Archwilio yn 2013; fodd bynnag, mae'r strategaeth hon yn cael ei diweddaru er mwyn atgyfnerthu'r fframwaith rheoli risg a chadarnhau barn gymeradwy o'r lefel risg dderbyniol. Er mwy llywio'r newidiadau, mae'r Cyngor wedi sefydlu cynllun gweithredu rheoli risg i'r busnes ac wedi neilltuo cyfrifoldebau i swyddogion. Mae'r Cyngor hefyd wedi penodi Rheolwr Risg Busnes cymwysedig i gynnig arbenigedd a gallu ychwanegol.

41 Mae Grŵp Rheoli Risg Corfforaethol ar waith ac mae hyfforddiant i'r grŵp hwn wedi cael ei roi. Caiff y grŵp hwn ei fynychu gan gynrychiolwyr o bob adran, fel arfer pennaeth gwasanaeth, ac mae'n cyfarfod bob chwarter. Mae'r grŵp hwn yn adolygu'r gofrestr risg gorfforaethol ac yn bwydo cwestiynau a chamau gweithredu i fyny i'r Tîm Rheoli Corfforaethol ac i lawr i reolwyr adrannol. At hynny, mae Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Amgylchedd a Rheoleiddio a'r Gymraeg bellach yn mynychu'r Grŵp Rheoli Risg Gorfforaethol a thrwy hynny'n sicrhau goruchwyliaeth aelod o'r holl risgiau mawr.

42 Er bod prosesau sefydledig ar waith ar gyfer ystyried risgiau corfforaethol ac adrannol, cydnabyddir bod angen cymhwyso'r broses at wasanaethau er mwyn nodi risgiau ar lefel gwasanaeth yn well a chodi ymwybyddiaeth o'r angen am reoli risg effeithiol drwy'r Cyngor cyfan. Er mwyn cyflawni hyn, sefydlwyd grŵp risg weithredol. Mae aelodau o'r grŵp hwn, rheolwyr iau fel arfer, wedi cael y dasg o hyrwyddo rheoli risg fel pwnc a rhoi cymorth adrannol. Dangosodd aelodau o'r grŵp risg weithredol ddealltwriaeth glir o'r broses risg ddiwygiedig a'u rôl o ran hyrwyddo risg yn eu meysydd gwasanaeth.

43 Cynhaliwyd gweithdy rheoli risg i'r busnes gyda'r Pwyllgor Archwilio; fodd bynnag, nid yw'r Pwyllgor Archwilio yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n llawn o ran rheoli risg gan nad yw'n adolygu'r gofrestr risg gorfforaethol yn ddigon rheolaidd ac nid yw'n herio ei chynnwys nac yn nodi meysydd risg eraill i'w cynnwys. Nid oes ychwaith unrhyw systemau clir ar waith i hysbysu pwyllgorau trosolwg a chraffu o risgiau sy'n effeithio ar eu maes gwasanaeth; unwaith eto, mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i ystyried meysydd risg wrth iddynt ddatblygu eu blaenraglenni gwaith. Mae'r Cyngor yn gweithredu ar hyn fel camau gweithredu â blaenoriaeth.

# Perfformiad

## Mae Estyn o'r farn nad oes angen i wasanaeth addysg yr awdurdod lleol fod yn destun mesurau arbennig mwyach

44 Ym mis Mehefin 2014, cynhaliodd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru adolygiad dilynol o'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor ers ei ymweliad diwethaf. Mae'r paragraffau canlynol yn crynhoi llythyr Estyn.

45 Noda Estyn fod y Cyngor, ers mis Hydref 2012, wedi gwneud cynnydd ardderchog i drawsnewid trefniadau ar gyfer diogelu yn ei holl wasanaethau addysg ac ysgolion. Mae arweinyddiaeth gadarn a gweledigaeth glir aelodau etholedig ac uwch swyddogion allweddol yn sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc yn ganolog i drefniadau diogelu'r Cyngor sydd bellach yn gadarn.

46 Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Ddiogelu yn rhoi cefnogaeth dda a her i Aelod y Cabinet dros Ddiogelu ac i swyddogion. Mae'r pwyllgor wedi goruchwylio'r broses o sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried recriwtio'n ddiogel. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i chwarae rôl allweddol yn un o weithgorau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn llunio canllawiau arfer da ar recriwtio'n ddiogel at ddefnydd cynghorau lleol eraill yng Nghymru.

47 Mae ymrwymiad y Cyngor i'r Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant yn rhoi cyfleoedd defnyddiol i'r Cyngor gymharu ei arfer diogelu ag eraill yn y rhanbarth drwy herio gan gymheiriaid a defnyddio meincnodau. Mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu Bwrdd Lleol Diogelu Plant iau yn ddiweddar. Mae hwn yn rhoi mwy o lais i blant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai sy'n agored i niwed, ar faterion sydd o bwys penodol iddynt. Rhoddir gwerth mawr ar lais plant yn y Cyngor ac mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ffurfiol, sef dim ond yr ail gyngor yng Nghymru i wneud hynny.

48 Ar ôl yr arolygiad yn 2012 datblygodd y Cyngor, mewn cydweithrediad â phartneriaid yn y rhanbarth, strategaeth gydlynol i ddeilliannau dysgwyr yn ei ysgolion. Ceir diwylliant agored a thryloyw rhwng y Cyngor a'i ysgolion bellach, a mwy o barodrwydd i herio a chael ei herio.

49 Mae gan y Cyngor drefniadau cynyddol drwyadl i ddwyn ysgolion i gyfrif am wella ac mae uwch swyddogion yn cydnabod yn briodol bod yn rhaid i ansawdd addysgu wella mewn llawer o ysgolion. Mae swyddogion wedi cyflwyno nifer o gamau gweithredu i herio a chefnogi uwch arweinwyr ac athrawon ystafell ddosbarth.

50 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi ailddiffinio ei egwyddorion ar gyfer ad-drefnu ysgolion; mae hyn wedi arwain at resymeg gadarnach sy'n seiliedig ar dystiolaeth dros newid gan alluogi'r Cyngor i ddod i gasgliadau anffurfiol ynglŷn ag ansawdd darpariaeth a'r angen i ychwanegu, dileu neu adleoli lleoedd ysgol. Mae aelodau etholedig ac uwch swyddogion wedi bod yn gwneud penderfyniadau anodd sydd wedi arwain at nifer o ymgynghoriadau ynghylch ad-drefnu ysgolion, a chymeradwyo penderfyniadau i uno ysgolion, cau ysgolion ac adeiladu ysgolion newydd.

51 Drwy ddiwygio ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae strategaeth y Cyngor i sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn yr hirdymor yn fwy cadarn. Mae cynnydd wedi cael ei wneud yn y sector cynradd ond yn gyffredinol, arafach fu'r broses o weithredu'r strategaeth yn y sector uwchradd.

52 Bu gwelliant sylweddol o ran effeithiolrwydd craffu gan aelodau etholedig yn y Pwyllgor Diogelu a'r Pwyllgor Plant a Theuluoedd. Mae aelodau yn herio'r Arweinydd a'r Cabinet yn gadarn ac yn eu dwyn i gyfrif yn dda. Maent yn wybodus ac yn drwyadl wrth holi swyddogion ac aelodau gweithredol. Mae mwy o ffocws i gyfarfodydd, gyda llai o gyflwyniadau a mwy o amser i ddadansoddi a thrafod.

53 Mae gwaith y tîm cymorth Partneriaeth a Chraffu canolog yn cynnig dull gweithredu clir a chyson ar gyfer yr holl waith cynllunio corfforaethol a phartneriaeth. Mae'r cynllun integredig sengl wedi cael ei adolygu ac mae i weithgarwch partneriaeth fwy o ffocws bellach. O ganlyniad, mae gweithio mewn partneriaeth yn canolbwyntio, a hynny'n briodol, ar bedwar maes lle y gall sefydliadau gael yr effaith fwyaf drwy gydweithio; er enghraifft, lleihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

54 Mae hierarchaeth glir o gynlluniau bellach o gynllun integredig sengl y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, drwy gynllun gwella, cynlluniau gwella gwasanaeth a chynlluniau tîm y Cyngor. Mae'r cynllun integredig sengl hefyd wedi'i gysoni'n dda â chynllun busnes y consortiwm addysg rhanbarthol. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnig strwythur cydlynol ar gyfer pennu amcanion a thargedau sy'n cyfrannu at y system rheoli perfformiad newydd ar gyfer monitro cynnydd. Mae amcanion arfarniadau o berfformiad unigolion yn cysylltu'n dda â'r amcanion a amlinellir mewn cynlluniau gwella gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau tîm bob amser yn cynnwys targedau mesuradwy na meini prawf llwyddiant addas.

55 Mae'r Cyngor wedi dechrau cylch blynyddol newydd o hunanwerthuso ac wedi drafftio gwerthusiad defnyddiol o bob agwedd ar wasanaethau addysg i blant a phobl ifanc. Hyd yn oed ar ei ffurf ddrafft bresennol, mae'n welliant amlwg ar adroddiadau blaenorol a baratowyd gan y Cyngor; fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen mireinio'r adroddiad ymhellach, gan gynnwys ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid, yng ngham nesaf ei ddatblygiad.

## Ym marn Estyn, roedd perfformiad presennol Partneriaeth Dysgu Cymunedol i Oedolion Sir Benfro yn dda, ac roedd ei ragolygon ar gyfer gwella yn ddigonol

56 Cynhaliodd Estyn adolygiad o berfformiad Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Sir Benfro ym mis Tachwedd 2014. Mae'r paragraffau canlynol yn crynhoi ei waith.

57 Mae perfformiad presennol Rhwydwaith Dysgu Sir Benfro yn dda oherwydd:

a Mae dysgwyr yn Sir Benfro yn cyflawni cyfraddau llwyddo gwell nag oedolion eraill sy'n dysgu yn y gymuned mewn rhannau eraill o Gymru.

b Mae llawer o ddysgwyr yn gwella eu hiechyd a'u lles. Mae bron bob dysgwr yn magu hyder o ganlyniad i gymryd rhan mewn dysgu. Maent yn cael budd o'r symbyliad meddyliol. Mae bron bob dysgwr yn hunanysgogol, yn mynychu'n rheolaidd ac yn cyfrannu'n gadarnhaol yn y dosbarth.

c Mae'r rhwydwaith dysgu yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda.

ch Mae'r addysgu yn dda.

58 Fodd bynnag, er gwaethaf y duedd tuag i fyny yn y cyfraddau y mae dysgwyr yn llwyddo i ennill eu cymwysterau addysg sylfaenol i oedolion, mae'r gyfradd lwyddo gyffredinol yn is na'r cymharydd cenedlaethol. Nid oes gan y rhwydwaith ddealltwriaeth ddigon da o raddfa anghenion sgiliau sylfaenol yn y sir. Nid oes gan 11 y cant o oedolion o oedran gweithio yn Sir Benfro unrhyw gymwysterau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg sylfaenol i sgiliau hanfodol i oedolion wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf, i wyth y cant o'r ddarpariaeth, ond mae'n gyfran rhy fach o hyd o'r ddarpariaeth gyffredinol.

59 Mae Grŵp Strategol Rhwydwaith Dysg Sir Benfro, drwy ei gynllun strategol, yn pennu gweledigaeth a chyfeiriad effeithiol i'r rhwydwaith.

a Mae'r rhwydwaith yn ystyried safbwyntiau dysgwyr yn dda drwy Lais Dysgwyr Cymru ac amrywiaeth o brosesau eraill.

b Mae grŵp cwricwlwm y rhwydwaith yn gweithio'n dda, ar lefel weithredol, er mwyn rhannu amserlenni arfaethedig partneriaid a lleihau dyblygu. Mae cydgysylltwyr canolfan Dysgu Sir Benfro yn gweithio'n dda i adolygu maint dosbarthiadau a gwneud penderfyniadau ynghylch a ydynt yn parhau i fod yn hyfyw.

60 Fodd bynnag, nodwyd y materion canlynol, sy'n cyfyngu ar allu'r rhwydwaith i wella:

a Nid oes ffocws ar dargedau penodol yng nghynllun strategol y rhwydwaith. O ganlyniad, ni all y rhwydwaith fesur cynnydd yn gadarn er mwyn penderfynu pa mor dda y mae wedi cyflawni ei amcanion. Nid yw grŵp strategol y rhwydwaith yn rheoli nac yn monitro'r cynnydd a wnaed yn erbyn blaenoriaethau'r rhwydwaith yn ddigon agos.

b Nid yw rheolwyr yn defnyddio gwybodaeth feincnodi'n ddigon da i herio perfformiad ar lefel rhaglen. O ganlyniad, nid yw rheolwyr yn nodi cryfderau na meysydd i'w gwella ar lefel rhaglen yn ddigon da nac yn rhoi targedau gwella ar waith.

c Nid yw'r cynllun datblygu ansawdd yn ddigon clir ynglŷn â'r camau gweithredu penodol sydd eu hangen i'w gwneud yn bosibl i welliant gael ei wneud na'r terfynau amser gofynnol i adolygu'r camau gweithredu. Nid yw'r grŵp strategol yn adolygu cynnydd yn erbyn meysydd allweddol i'w gwella yn ddigon da.

## Penderfynodd Estyn fod Uned Cyfeirio Disgyblion Sir Benfro wedi gwneud cynnydd digonol o ran yr argymhellion yn sgil yr arolygiad craidd ym mis Mawrth 2012, er mwyn ei alluogi i dynnu ei henw o'r rhestr o unedau cyfeirio disgyblion sydd angen gwella'n sylweddol

61 Ym mis Rhagfyr 2014, cynhaliodd Estyn adolygiad dilynol o Uned Cyfeirio Disgyblion Sir Benfro. Mae'r paragraffau canlynol yn crynhoi ei ganfyddiadau.

62 Mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion wedi gwneud cynnydd da iawn o ran gwella ei dadansoddiad o ddata perfformiad, gan ei galluogi i gynllunio'n fwy trwyadl. Defnyddir y data perfformiad hyn yng nghyfnodau allweddol 1, 2 a 3; fodd bynnag, mae targedau ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn llai manwl ac nid ydynt yn cynnwys digon o wybodaeth ynglŷn â strategaethau er mwyn sicrhau'r gwelliannau a ddymunir.

63 Caiff data ar bresenoldeb a gwaharddiadau eu casglu a'u defnyddio i bennu strategaethau cymorth priodol i ddisgyblion unigol. Mae'r rheolwyr yn dadansoddi'r data hyn yn ofalus er mwyn nodi patrymau a llywio gwaith cynllunio. Fodd bynnag, ceir presenoldeb cyffredinol o 70 y cant yng nghyfnod allweddol 4, sydd dipyn yn is na'r gyfradd ddisgwyliedig.

64 Mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion wedi cymryd camau gwerthfawr i gefnogi anghenion emosiynol disgyblion. Er enghraifft, mae'n ceisio gwybodaeth am agweddau disgyblion tuag atynt hwy eu hunain a'u hysgol, ac mae'n defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio ymyriadau rheoli ymddygiad.

65 Mae rheolwyr bellach yn cyflwyno amrywiaeth eangach o ddata i'r pwyllgor rheoli. Mae hyn yn cynnwys data ar bresenoldeb, gwaharddiadau a pherfformiad academaidd. Mae'r data'n nodi perfformiad grwpiau o ddisgyblion gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae'r pwyllgor rheoli yn defnyddio'r data hyn er mwyn herio rheolwyr yn briodol.

66 Ers ymweliad monitro Estyn ym mis Gorffennaf 2013, bu newidiadau sylweddol ar lefel strategol o ran yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Gwnaeth y Cyngor gynnwys y pwyllgor rheoli yn y gwaith o gynllunio'r cyfeiriad a'r weledigaeth strategol ar gyfer yr Uned Cyfeirio Disgyblion. O ganlyniad, roedd aelodau'r pwyllgor yn deall eu rôl ac yn cefnogi'r weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r cyfeiriad strategol newydd yn cynnwys ffocws priodol ar ddarparu llwybr carlam ac ailintegreiddio disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd.

67 Mae'r pwyllgor rheoli yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae ganddo gynrychiolaeth briodol. Mae hyn yn cynnwys aelodau etholedig, penaethiaid, swyddogion y Cyngor a chynrychiolwyr rhieni. Mae'r pwyllgor wedi cytuno ar gynllun gwella ysgolion newydd sy'n nodi blaenoriaethau priodol i'w datblygu. Fodd bynnag, nid oes digon o ffocws ar bennu targedau i wella safonau cyffredinol disgyblion. Mae'r cynllun yn

nodi'r camau gweithredu i'w cymryd er mwyn sicrhau'r gwelliannau arfaethedig, yr adnoddau i'w neilltuo, terfynau amser priodol i'w cyflawni a meini prawf llwyddiant clir.

68 Mae'r is-bwyllgorau'n cael adroddiadau defnyddiol a manwl gan bob un o'r darpariaethau sy'n rhan o'r Uned Cyfeirio Disgyblion. Mae aelodau'r pwyllgorau yn craffu ar yr adroddiadau hyn ac maent yn dechrau herio rheolwyr yn briodol. Fodd bynnag, ni fu digon o ffocws ar wella safonau a phresenoldeb dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4.

69 Ers ymweliad monitro Estyn ym mis Gorffennaf 2013, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran darparu llety o ansawdd da ar gyfer pob disgybl. Mae'r Cyngor wedi diwygio ei strategaeth mewn perthynas â'r Uned Cyfeirio Disgyblion. O ganlyniad, mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion wedi symud i lety wedi'i adnewyddu ar safle Neyland. Mae'r cyfleusterau, yr addurno a safon y llety wedi gwella cryn dipyn. Mae pob un o'r ystafelloedd dosbarth a'r holl ardaloedd cylchdroi wedi cael eu haddurno ac wedi'u carpedu i safon uchel. Mae'r safle yn ddiogel ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda.

70 Trosglwyddodd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 4 i ganolfan ieuenctid leol ym mis Medi 2014. Mae'r ystafelloedd addysgu yn fach ar y cyfan. Mae'r cwricwlwm a gynigir i'r disgyblion wedi lleihau ers y symud a chyfyngedig yw'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Yn ôl strategaeth y Cyngor sy'n datblygu, ni fydd darpariaeth cyfnod allweddol 4 yn bodoli o ddiwedd blwyddyn academaidd 2015.

## Er bod y Cyngor wedi cefnogi cynlluniau i wella hyfywedd a bywiogrwydd ei chwe phrif dref, mae diffyg mesurau defnyddiol yn ei gwneud hi'n anodd i'r Cyngor werthuso ei lwyddiannau'n gywir

71 Fel rhan o'n gwaith asesu perfformiad, gwnaethom edrych ar amcan gwella'r Cyngor sy'n anelu at wella hyfywedd a bywiogrwydd ei chwe phrif dref. Roedd yr asesiad hwn yn cynnwys asesiad o b'un a oedd adroddiad perfformiad cyhoeddus blynyddol y Cyngor yn deg ac yn gytbwys o ran y ffordd y cyflwynodd y cynnydd a wnaed gan y Cyngor.

72 Mae'r Cyngor wedi cefnogi'r broses o ddatblygu tîm tref ym mhob un o'i chwe phrif dref. Partneriaethau rhwng sefydliadau megis cynghorau tref, siambrau masnach a'r cyngor sir yw'r timau tref. Mae pob tîm tref wedi datblygu cynllun gweithredu sy'n canolbwyntio ar wella amgylchedd adeiledig y trefi eu hunain a chefnogi siopau lleol ac annog menter, gan ddefnyddio 'Adolygiad Portas[2]' fel fframwaith. Mae pob un o'r timau tref wedi gwneud cynnydd gwahanol; mae'r Cyngor yn nodi mai Tîm Tref Abergwaun ac Wdig sydd wedi gwneud y cynnydd mwyaf. Mae'r tîm hwn wedi llwyddo i ddenu tua £350,000 mewn grantiau a ddylai ei helpu i sicrhau gwelliannau a chodi proffil yr ardal drwy fentrau brandio.

2 The Portas Review: An independent review into the future of our high streets, Mary Portas 2011

73 Er bod gan y Cyngor a'r tîm tref nodau cyffredin, mae cyfathrebu da rhwng y partneriaid yn y partneriaethau yn hollbwysig i'w llwyddiant. Credwn y dylid gwella cyfathrebu neu fel arall gall rhwystrau godi a allai gyfyngu ar lwyddiant y fenter.

74 Mae'r gwaith o werthuso cynnydd y tîm tref wedi'i gyfyngu gan ddiffyg mesurau a darlun clir o'r canlyniadau a gyflawnwyd. Nid yw'r Cyngor wedi ymgysylltu â'r timau tref er mwyn cael darlun ar y cyd o gynnydd; fel y cyfryw, dim ond safbwynt y Cyngor ar lwyddiant y cynlluniau hyn a geir yn adroddiadau cyhoeddus y Cyngor ar berfformiad.

75 Mae'r Cyngor wedi bod yn effeithiol o ran cael nifer o grantiau gan yr UE, Llywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae grantiau Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn gofyn am gynnwys elfen o addysg/hyfforddiant, ac ar gyfer Menter Treftadaeth Tirlun Hwlffordd, mae'r Cyngor wedi cysylltu â Choleg Sir Benfro. Yn ystod Cam 1 o'r Fenter Treftadaeth Tirlun, bu pedwar myfyriwr yn rhan o'r fenter ond nid yw hyn wedi atal Coleg Sir Benfro rhag gweithio gyda'r Cyngor eto ar Gam 2 o'r prosiect. Unwaith eto, yn y maes hwn, nid yw'r Cyngor wedi ymgysylltu â Choleg Sir Benfro er mwyn datblygu gwerthusiad ar y cyd o lwyddiant ac mae angen i staff sy'n ymwneud â'r gwasanaeth sicrhau eu bod yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o ysgrifennu'r adroddiad ar berfformiad er mwyn sicrhau ei fod yn gywir.

76 Mae'r Cyngor wedi defnyddio tua £50,000 o'r arian allanol i gefnogi cynllun i baentio tu blaen adeiladau yn chwe phrif dref y sir. Dros ddwy flynedd, mae'r cynllun hwn wedi'i gwneud yn bosibl i 88 o adeiladau gael eu paentio, gan gynnwys 23 ym Mhenfro a 18 yn Abergwaun, sef y ddau brif leoliad.

77 Yn gyffredinol, mae rhaglen y Cyngor i alluogi, hwyluso a chyflawni cynlluniau i wella hyfywedd a bywiogrwydd canol trefi yn gymhleth ac yn amrywiol. Cydnabyddir bod uchelgeisiau'r Cyngor yn rhai hirdymor, ac wedi'u gwneud yn fwy anodd o ganlyniad i'r hinsawdd ariannol. Er ei fod yn asesu bod ei gynnydd ei hun yn y maes hwn yn amrywiol, nid oes gan y Cyngor ffordd effeithiol o fesur cynnydd tuag at ei ganlyniadau ac mae hyn yn gwanhau ei werthusiad. Mae hyn, yn ei dro, ynghyd â diffyg ymgysylltu effeithiol â phartneriaid a chyfranogiad annigonol gan staff sy'n ymwneud â'r gwasanaeth, yn gwanhau adroddiadau cyhoeddus ar berfformiad yn erbyn yr amcan gwella hwn.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei uchelgeisiau ar gyfer yr amgylchedd drwy barhau i ragori ar dargedau cenedlaethol ar gyfer cyfran y gwastraff a ailgylchwyd a faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi

78 Fel rhan o'n gwaith asesu perfformiad, gwnaethom edrych ar amcan gwella'r Cyngor sy'n anelu at wella'r amgylchedd. Roedd yr asesiad hwn yn cynnwys asesiad o b'un a oedd adroddiad perfformiad cyhoeddus blynyddol y Cyngor yn deg ac yn gytbwys o ran y ffordd y cyflwynodd y cynnydd a wnaed gan y Cyngor.

79 Mae'r Cyngor wedi gweithio'n galed i wella cyfranogiad y cyhoedd mewn ailgylchu. Gan gydnabod yr angen am fod yn rhagweithiol er mwyn atal ei berfformiad ailgylchu rhag dirywio, mae'r Cyngor wedi ymgymryd â nifer o weithgareddau cysylltu â'r cyhoedd gan gynnwys cyswllt uniongyrchol a chyfarfod pobl mewn digwyddiadau cyhoeddus. Mae'r Cyngor wedi ymchwilio i'r ffordd fwyaf effeithiol o gael effaith gadarnhaol ar y cyhoedd a gellir gweld ffrwyth y gwaith hwn yn y cynnydd o 3 i 5 y cant yn nifer y bobl sy'n ailgylchu gwastraff bwyd.

80 Gwnaeth y Cyngor leihau amlder casgliadau bagiau du yn ystod y flwyddyn ac mae hyn yn ei dro hefyd wedi annog pobl i ailgylchu mwy er bod cynnydd hefyd o ran faint o wastraff mewn bagiau du a gludir i safleoedd amwynder dinesig.

81 Mae'r Cyngor wedi bod yn rhesymoli nifer y safleoedd ailgylchu wrth iddo ymestyn ei gasgliadau ymyl y ffordd. Roedd ei gynlluniau ar gyfer safle amwynder dinesig newydd yn ne-ddwyrain y sir wedi'u gohirio, ond mae'r cyfleuster newydd bellach yn weithredol.

82 O ganlyniad i'w fentrau, dim ond 72 y cant o'i lwfans tirlenwi a ddefnyddiwyd gan y Cyngor yn 2013-14 ac mae'r Cyngor bellach yn drydydd yng Nghymru, gan ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio 60 y cant o wastraff, sy'n rhagori ar y targed cenedlaethol o 52 y cant. Os bydd yn parhau â'r lefel hon o welliant yn ei berfformiad bydd hynny'n helpu'r Cyngor i osgoi unrhyw ddirwyon a roddir gan weinidogion am fethu â chyflawni targedau cenedlaethol yn y dyfodol.

83 Mae'r Cyngor wedi dechrau allforio gwastraff gweddilliol yn ddiweddar drwy ei anfon ar longau i Sgandinafia lle mae'n cael ei losgi, gan gynhyrchu gwres ar gyfer y cynlluniau gwresogi cymunedol. Sefydlwyd y cynllun hwn gyda chontract fframwaith sy'n caniatáu i bob cyngor arall yng Nghymru gymryd rhan os dymunant. Mae nifer o gynghorau eraill wedi dangos diddordeb.

84 Mae gan y Cyngor ddetholiad da o fesurau i gefnogi ei berfformiad rheoli gwastraff. Caiff y mesurau hyn a'r data sylfaenol eu defnyddio'n weithredol i reoli'r gwasanaeth a llunio dulliau o gysylltu â'r cyhoedd yn effeithiol. Mae'r data hyn yn cynnig adnodd gwerthfawr i'r Cyngor, gan ei helpu i gynnal gwerthusiad cywir o'i gynnydd a rhoi darlun teg a chytbwys o berfformiad yn y maes hwn yn ei adroddiad i'r cyhoedd.

## Bu gwelliant parhaus yng ngwasanaethau cymdeithasol y Cyngor drwy gydol y flwyddyn, gan ei helpu i wneud cynnydd tuag at gyflawni ei uchelgais o ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol i bobl ar sail eu hanghenion a'u dymuniadau

85 Cyhoeddwyd Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013-2014 AGGCC ym mis Hydref 2014. Mae paragraffau 86 i 91 yn crynhoi'r adroddiad hwn.

86 Nododd AGGCC y cafwyd gwelliant parhaus yng ngwasanaethau cymdeithasol y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae'r Cyngor wedi parhau i fuddsoddi yn y gweithlu gwasanaethau cymdeithasol yn unol â'i strategaeth recriwtio a chadw ar gyfer gwaith cymdeithasol.

87 Parhaodd pobl a oedd yn cael gwasanaethau i oedolion i gael budd o'r pwyslais ar gefnogi pobl yn y gymuned drwy'r prosiect 'gofal yn agosach i'r cartref' ac mae'r cynnydd yn y maes hwn yn parhau. Mae gwneud cynnydd o ran integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn allweddol er mwyn helpu pobl i barhau'n annibynnol a sicrhau'r budd mwyaf gan wasanaethau yn y gymuned. Ceir ymrwymiad i gyflawni hyn o du pob partner.

88 Mae'r gwelliant a nodwyd yn 2012-13 mewn gwasanaethau plant wedi parhau. Mae'r buddsoddiad yn y gweithlu wedi arwain at ddatblygu arfer proffesiynol gan sicrhau canlyniadau gwell i blant.

89 Mewn ymateb i fframwaith strategol Llywodraeth Cymru 'Mwy na Geiriau', sef y fframwaith strategol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn y gweithlu gofal cymdeithasol, mae'r Cyngor wedi cynyddu'r hyfforddiant iaith Gymraeg sydd ar gael i'r staff a'i wneud yn fwy hyblyg. Mae'n bwriadu i'r Gymraeg ddod yn elfen graidd o'r gwasanaethau gofal a ddarperir.

90 Er bod buddsoddiad sylweddol yn y gweithlu gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, mae'r Cyngor bellach yn pennu targedau arbedion o £1.1 miliwn ar gyfer y ddwy flynedd nesaf, sy'n cyfateb i ostyngiad o 2.6 y cant mewn gwariant. Mae'n hyderus y gellir cyflawni hyn drwy waith comisiynu a chaffael effeithiol a gwell. Mae'r Cyngor yn adolygu ei leoliadau cost uchel y tu allan i'r sir a ffurf ei wasanaethau mewnol ar gyfer gofal yn y cartref a gwasanaethau ail-alluogi yn y dyfodol.

91 Mae'r Cyngor yn dangos, yn adroddiad y cyfarwyddwr ac adroddiadau penaethiaid gwasanaethau, fod ganddo weledigaeth glir o'r ffordd y caiff gofal cymdeithasol ei ddarparu dros y blynyddoedd sydd i ddod. Disgrifir y bwriadau strategol yn y cynllun integredig sengl, ac mae'n cysylltu â'r cynllun gwella ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Mae cyfeiriad ac ymrwymiad clir i sicrhau y bydd ymarfer ailfodelu gwasanaethau yn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol i bobl yn seiliedig ar eu hanghenion a'u dymuniadau. Bydd yr uchelgais hwn – os caiff ei wireddu – yn helpu i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

### Diogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg

92 Yn ystod 2014-15, cynhaliodd AGGCC arolygiad o'r canlynol: Diogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg. Cynhaliwyd yr arolygiad fel rhan o raglen arolygiadau thematig cenedlaethol AGGCC. Roedd y fethodoleg ar gyfer yr adolygiad yn cynnwys tri diwrnod a hanner o waith maes ym mhob awdurdod lleol ledled Cymru, rhwng mis Ionawr a mis Mai 2014. Nod yr arolygiad cenedlaethol oedd asesu ansawdd y gwaith o gynllunio gofal ledled Cymru a ph'un a oedd yn gwneud y canlynol yn effeithiol:

- a yn cefnogi ac yn diogelu plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal;
- b yn nodi ac yn rheoli ymddygiad sy'n gwneud plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal yn agored i niwed ac yn peri risg iddynt;
- c yn hyrwyddo arfer sy'n seiliedig ar hawliau a llais y plentyn;
- ch yn hyrwyddo canlyniadau gwell i blant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal; ac
- d yn hyrwyddo cydymffurfiaeth â pholisïau a chanllawiau.

93 Mae canfyddiadau arolygiadau o awdurdodau lleol unigol ac adroddiad trosolwg cenedlaethol AGGCC ar gael ar wefan AGGCC.

## Mae perfformiad y Cyngor o ran gweinyddu taliadau tai yn ôl disgresiwn yn wael

94 Mae Deddf Diwygio Lles 2012 yn cyflwyno newid mawr i'r ffordd y caiff budd-daliadau eu gweinyddu a'u dosbarthu a chaiff effaith sylweddol ar lawer o ddinasyddion. Ym mis Ebrill 2011, dechreuodd Llywodraeth y DU ar raglen ddiwygio a fydd yn arwain at gyflwyno'r credyd cynhwysol fesul cam rhwng mis Hydref 2013 a 2017. Un ffocws mawr cynlluniau Llywodraeth y DU yw'r newidiadau i fudd-dal tai, gyda'r nod o leihau gwariant blynyddol tua £2.3 biliwn. Bydd y newidiadau hyn yn golygu y bydd miloedd o gartrefi ym Mhrydain Fawr yn cael llai o fudd-daliadau, gan arwain at ddewisiadau anodd iddynt am y ffordd y maent yn defnyddio eu harian ac yn ymdopi'n ariannol o ddydd i ddydd.

95 Ym mis Ionawr 2015, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad ar ba mor dda y mae cynghorau yn rheoli effaith newidiadau diwygio lles ar denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru. Adolygodd ei adroddiad y broses o reoli a defnyddio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn gan gynghorau yng Nghymru a daeth i'r casgliad fod anghysondebau a gwendidau sylweddol yn y broses o ddyrannu, dosbarthu, gweinyddu a defnyddio'r taliadau hyn. Gwnaethom waith dilynol mewn cynghorau unigol.

96 Canfu ein hadolygiad nad oes gan y Cyngor systemau priodol ar waith er mwyn helpu cwsmeriaid sy'n agored i niwed wneud cais am daliadau tai yn ôl disgresiwn. Prin iawn yw'r wybodaeth ar wefan y Cyngor am daliadau tai yn ôl disgresiwn, gan gynnwys tudalennu gwe budd-daliadau tai'r Cyngor. Ni roddodd y cyfleuster chwilio ar y wefan unrhyw ganlyniadau ar gyfer taliadau tai yn ôl disgresiwn. Er i'r Cyngor roi'r dolenni i nifer o adroddiadau gan y cabinet i ni, roedd y rhain ond yn ymwneud ag ychydig o ddata ar berfformiad gwasanaeth a rhai blaenoriaethau o ran ymgeiswyr am daliadau tai yn ôl disgresiwn. Mae hyn yn methu'n amlwg â darparu'r wybodaeth allweddol sydd ei hangen ar ymgeiswyr a phartneriaid er mwyn eu galluogi i ddefnyddio taliadau tai yn ôl disgresiwn ac nid yw'n ddogfen i'r cyhoedd. O ystyried y gwendidau hyn yn y wybodaeth i'r cyhoedd, mae'n anodd i'r Cyngor sicrhau ei fod yn helpu pobl sy'n agored i niwed i wneud cais.

97 Nid oes unrhyw strategaeth na datganiad polisi cyhoeddedig sy'n nodi sut mae taliadau tai yn ôl disgresiwn yn helpu pobl i leihau effaith newidiadau diwygio lles megis cymhorthdal yr ystafell sbâr neu'r cap ar fudd-daliadau, neu helpu teuluoedd eraill sydd ag anghenion tai. Mae'r Cyngor yn adolygu ei gynllun ar gyfer taliadau tai yn ôl disgresiwn bob blwyddyn a chyflwynir adroddiad rheolaidd i'r aelodau ynglŷn â hynt y cynllun. Fodd bynnag, cyfyngedig yw cwmpas y wybodaeth bolisi a adolygir gan aelodau ac nid yw'n rhoi blaenoriaeth i grwpiau allweddol o ymgeiswyr sydd ag anghenion tai; er enghraifft, pobl a all fynd yn ddigartref.

98 Mae'r Cyngor wedi rhoi proses ar waith i fonitro lefel gwariant yn erbyn yr arian a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, effaith taliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau drwy gyfeirio at lefel ôl-ddyledion tenantiaid y Cyngor (ond nid tenantiaethau cymdeithasau tai) a nifer y cwsmeriaid y mae wedi'u helpu. Mae'r Cyngor hefyd yn monitro faint o bobl sydd wedi cael eu talu yn unol â'r lefel o flaenoriaeth a bennwyd yn ei gynllun ar gyfer taliadau tai yn ôl disgresiwn. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn monitro nifer y landlordiaid a gynorthwywyd er mwyn sicrhau bob pob sector ac ardal yn cael eu cwmpasu ac nid yw'n nodi faint o amser y mae'n ei gymryd i wneud penderfyniad ar gais.

99 Erbyn 4 Rhagfyr 2014, roedd y Cyngor wedi talu £159,000 o'i ddyraniad o £204,952 gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, sef 77 y cant o'i ddyraniad, ac wedi helpu 333 o bobl. Fodd bynnag, oherwydd gwendidau o ran ansawdd, ystod ac argaeledd gwybodaeth y Cyngor i'r cyhoedd a'r trefniadau monitro a gyflwynwyd ganddo i werthuso ei berfformiad ar ddarparu taliadau tai yn ôl disgresiwn, ni all y Cyngor wybod a yw'r taliadau a wneir yn cael yr effaith gywir.

## Mae'r Cyngor wedi sefydlu gweithgor i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y fframwaith 'Mwy na Geiriau' ac mae'n cynnal cynllun peilot llwyddiannus o becyn hyfforddiant iaith Gymraeg

100 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Daeth pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau i rym drwy is-ddeddfwriaeth ar 31 Mawrth 2015. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg yn rhinwedd pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

101 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob cyngor yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor ar y broses o'u rhoi ar waith. Mae cyfrifoldeb ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob cyngor wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

102 Nododd Comisiynydd y Gymraeg fod y Cyngor wedi sefydlu gweithgor i gyflawni'r dyletswyddau sy'n deillio o'r fframwaith 'Mwy na Geiriau'. Nod y grŵp yw atgyfnerthu a datblygu'r cynnig gweithredol drwy ei brosesau recriwtio a'i hyfforddiant i staff.

103 Cynhaliwyd cynllun peilot llwyddiannus o becyn hyfforddiant iaith Gymraeg newydd sy'n cyflwyno termau ac ymadroddion Cymraeg sylfaenol i staff derbyn canolfannau hamdden. Caiff yr hyfforddiant ei gyflwyno i ragor o staff yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

104 Ni chyfeiriodd cynlluniau busnes adrannol yn benodol at y cynllun iaith Gymraeg, ond dylai diwygiadau i'r broses cynllunio busnes roi cyfle i'r Cyngor ymateb i ofynion arfaethedig y safonau Cymraeg.

105 Mae Adnodd Asesu Effaith Integredig y Cyngor y cynnwys canllawiau ar fesur effaith prosiectau a mentrau arfaethedig ar y Gymraeg, gyda phob asesiad wedi'i gwblhau yn cael ei gyhoeddi ar y wefan.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-15 Cyngor Sir Penfro

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Cyngor Sir Penfro (y Cyngor) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau y caiff ei amcanion gwella eu cyflawni; a
- gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau er mwyn sicrhau y cyrhaeddir unrhyw safon perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, archwilio'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth nac ar b'un a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor yn cynnwys adolygu'r cynllun er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o’r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

## Nid wyf yn gwneud unrhyw argymhellion o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

Huw Vaughan Thomas

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Copi i: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Colin Davies, Rheolwr

Jeremy Evans, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad

# Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad Cyngor Sir Penfro o berfformiad 2013-14

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Cyngor Sir Penfro (y Cyngor) o berfformiad 2013-14 yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi asesiad o'i berfformiad yn ystod 2013-14 gan ddisgrifio ei berfformiad mewn perthynas â'r canlynol:

- cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau;
- cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad hunanosodedig; a
- chyrraedd unrhyw safonau perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a safonau perfformiad hunanosodedig.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad er mwyn nodi a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn cynnwys adolygu cyhoeddiad y Cyngor er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Nid wyf yn gwneud unrhyw argymhellion o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Huw Vaughan Thomas

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Copi i: Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Colin Davies, Rheolwr

Jeremy Evans, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad

# Atodiad 4 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2014-15

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Mai 2014 | Craffu Da? Cwestiwn Da! | A1 | Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses graffu. |
| | | A2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol. |
| | | A3 | Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;<br>• canolbwyntio mwy ar ganlyniadau;<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r cyngor. |
| | | A4 | Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. |
| | | A6 | Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. |
| | | A7 | Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru. |
| | | A8 | Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. |
| | | A9 | Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2014 | Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant - Canfyddiadau adolygiad o gynghorau yng Nghymru | A1 | Ynghyd â phartneriaid, mapio ac adolygu'r gwariant ar wasanaethau NEET er mwyn deall yn well pa adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r Fframwaith. |
| | | A2 | Egluro eu dull strategol o ostwng cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET yn ogystal â'u dull ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed. |
| | | A3 | Canolbwyntio ar bobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau sylweddol neu luosog i ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn hytrach na'r rhai sy'n fwy tebygol o ailymgysylltu heb lawer o gymorth ychwanegol. |
| | | A4 | Datblygu eu hamcanion a'u targedau ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET fel bod modd eu dwyn i gyfrif ac fel bod eu gwaith yn gyson â thargedau ac amcanion Llywodraeth Cymru. |
| | | A5 | Sicrhau bod aelodau etholedig a phartneriaid yn deall yn llwyr fod gan gynghorau gyfrifoldeb clir i arwain a chydgysylltu gwasanaethau ieuenctid i bobl ifanc 16-24 oed. |
| | | A6 | Gwella prosesau i werthuso effeithiolrwydd a gwerth am arian cymharol y gwasanaethau a'r ymyriadau yn eu hardal y bwriedir iddynt helpu i ostwng cyfran y bobl ifanc sy'n NEET. |


| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2014 | Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion | A1 | Diwygio'r safonau arfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol;<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion. |
| | | A2 | Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol. |
| | | A3 | Ymgysylltu'n well â thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau a defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. |
| | | A4 | Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• Nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau.<br>• Cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain.<br>• Pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion.<br>• Gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol:<br>– cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf; a<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. |

<table>
<tr><th>Dyddiad yr adroddiad</th><th>Teitl yr adolygiad</th><th colspan="2">Argymhelliad</th></tr>
<tr><td>Hydref 2014</td><td>Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion</td><td>A5</td><td>Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng ‘cost: budd: effaith’ a defnyddio’r wybodaeth hon i ategu penderfyniadau ar ddyfodol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cyngor; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol.</td></tr>
<tr><td rowspan="4">Ionawr 2015</td><td rowspan="4">Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru</td><td>A1</td><td>Gwella prosesau cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch yn well er mwyn mynd i’r afael ag effaith y diwygiadau lles ar denantiaid tai cymdeithasol drwy sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy’n ymdrin â gwaith holl adrannau perthnasol cynghorau, cymdeithasau tai a gwaith rhanddeiliaid allanol.</td></tr>
<tr><td>A2</td><td>Gwella trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd am ddiwygiadau lles drwy wneud y canlynol:<br>• penodi aelodau a swyddogion arweiniol i gymryd cyfrifoldeb am ddarparu arweiniad strategol mewn perthynas â’r diwygiadau lles a bod yn atebol am berfformiad; a<br>• sicrhau bod aelodau yn cael hyfforddiant digonol a briffiau rheolaidd ar y diwygiadau lles er mwyn gallu herio perfformiad a phenderfyniadau a chraffu arnynt.</td></tr>
<tr><td>A3</td><td>Sicrhau bod perfformiad o ran y diwygiadau lles yn cael ei reoli’n effeithiol drwy wneud y canlynol:<br>• pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a’r cyhoedd i lunio barn ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol ac yn enwedig y cymdeithasau tai; a<br>• phennu mesurau i lunio barn ar effaith ehangach y diwygiadau lles.</td></tr>
<tr><td>A4</td><td>Atgyfnerthu’r ffordd y caiff risgiau o ran y diwygiadau lles eu rheoli drwy greu un dull corfforaethol o weithredu sy’n cydgysylltu gweithgarwch ar draws y cyngor a gwaith gan eraill er mwyn rhoi digon o sicrwydd bod yr holl gamau angenrheidiol a phriodol i liniaru risg yn cael eu cymryd.</td></tr>
</table>


| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A5 | Ymgysylltu'n well â thenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr drwy wneud y canlynol:<br>• darparu cyngor a gwybodaeth reolaidd am yr opsiynau sydd ar gael iddynt ymdrin ag effaith ariannol y newid yn eu hamgylchiadau;<br>• hyrwyddo llinell gymorth 'Mae budd-daliadau yn newid'; a<br>• chynorthwyo'r tenantiaid hynny sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr yn benodol i gymryd rhan mewn cynlluniau cyflogaeth rhanbarthol/cenedlaethol. |
| | | A7 | Gwella'r ffordd y caiff Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn eu rheoli a'u defnyddio a gwella mynediad iddynt drwy:<br>• sefydlu polisi neu ganllaw clir i'r cyhoedd, sydd ar gael ar ffurf copi caled ac ar-lein, sy'n nodi polisi a threfniadau'r cyngor ar gyfer gweinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• diffinio'n glir y costau tai cymwys ac anghymwys a gaiff eu cwmpasu gan Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn ffurflenni cais, dogfennau polisi a thaflenni canllaw i ymgeiswyr;<br>• nodi'n glir y cyfnodau hwyaf/byrraf posibl y caiff y taliadau hyn eu talu;<br>• pennu a chyhoeddi'r amserlen y bydd yn rhaid i'r cyngor ei dilyn wrth benderfynu ar geisiadau am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• cynnwys gwybodaeth mewn deunyddiau cyhoeddus ar bolisi'r cyngor ar yr hawl i adolygu neu apelio yn erbyn penderfyniad a'r amserlenni a'r broses y dylid eu dilyn wrth benderfynu ar y rhain; a<br>• diffinio'n glir y grwpiau â blaenoriaeth ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn deunyddiau cyhoeddus er mwyn sicrhau y gall y rheini sy'n ceisio cymorth, a'r asiantaethau sy'n eu cynorthwyo, asesu p'un a yw'r taliadau hyn yn opsiwn ymarferol i ddiwallu eu hanghenion ariannol a'u hanghenion o ran tai. |

# Atodiad 5 – Gwybodaeth ddefnyddiol am adnoddau Cyngor Sir Penfro


Cyfanswm Incwm Gros 2013-14





Cyfanswm Incwm a Gwariant




Nifer y staff sy'n cyfateb i weithio oriau llawn amser 2010-11 i 2012-13




Cyfanswm Gwariant Gros yn ôl maes gwasanaeth



Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru